YR EGLWYS YNG NGHYMRU | THE CHURCH IN WALES

# Week 16: Moving on 3

## #addewidagobaith #hopeandpromise



**Efallai i chi hoffi dweud y weddi yma gan lenwi'r gwagle gyda eich teimladau a meddyliau eich hun.**

O Dduw,
Diolch am fod gyda mi.
Diolch i chi am fod yna i mi droi atoch a gofyn am gymorth unrhywdro.
Cynorthwywch fi i adnabod a gwybod y byddwch gyda mi trwy fy nyfodol.
Dwi'n pryderu am (rhowch eich geiriau chi yma) ond dwi'n ymddiried y byddwch yma i edrych ar fy ôl.
Dwi'n gyffrous am (rhowch eich geiriau chi yma), diolch am y pethau cyffrous fydd o'm mlaen a'r holl ddyddiau da sydd wedi eu cynllunio i mi edrych ymlaen amdanynt.

Amen

Croeso i rhan 3 o'n adnodd Cofio'r Enfys



Allwch chi gofio enw'r stori bum yn darllen dros y pythefnos diwethaf ? Ia "Y ffordd i Emaus".
Gadawon dau o ddilynwyr yr Iesu ar y ffordd i le o'r enw Emaus. Teimlodd y ddau yn drist gan fod yr Iesu wedi marw, ond teimlant yn gyffrous hefyd achos roedd sôn ôd fod yr Iesu wedi ymddangos i rhai pobl. Efallai i chi gofio i ni ddyfalu eu sgwrs wrth iddynt gerdded yn cofio'r amseroedd anhygoel yng nghwmni'r Iesu, a'r rhyfeddodau oedd wedi ddysgu iddynt.
Wrth i'r ddau gerdded daeth dyn i gyd gerdded, gofynnodd iddynt am yr Iesu ac am y gwersi oedd wedi dysgu iddynt. Gofynnodd am y sibrydion bod yr Iesu yn fyw a dywedodd rhai sylwadau diddorol am yr Iesu. Bu'r tri yn cyd gerdded a trafod am amser maith ond fel iddi ddechrau nosi cyrhaeddant Emaus. Penderfynodd y criw bach fynd i gael bwyd a parhau a'u sgwrs.
Eisteddodd y ddau gyda'r dyn i fwyta eu bwyd. Ond cyn cychwyn bwyta gofynnodd y dyn
os caiff ddweud gweddi i ddiolch i Dduw am y bwyd. Sylweddolodd y ddau ddilynwr eu bod yn adnabod y dyn yma! Gwyddai'r ddau pwy oedd y dyn!! .......yr Iesu! Mi oedd yr Iesu yn fyw, roedd y straeon yn wir!!
Ond yn sydyn fe ddiflanodd yr Iesu! Roedd y ddau ddilynwr ar ben eu hunain ond yn hapus a chyffrous ac yn gwybod bod rhaid iddynt rannu y stori anhygoel yma hefo eraill. Felly ffwrdd a nhw yn llawn brwdfrydedd yn edrych ymlaen yn eiddgar at beth oedd am ddod yn y dyfodol.

Waw! Am siwrnai roedd y ddau wedi ei gael wrth iddynt gerdded yn cofio'r amseroedd anhygoel yng nghwmni'r Iesu, a'r rhyfeddodau oedd wedi ddysgu iddynt. Ond rwan mi oedd yn amser symud ymlaen. Amser am fwy o anturiaethau.
Mae'n amser symud ymlaen i rhai ohonoch chi. Amser i symud i ysgol newydd ym mis Medi, neu i ddosbarth newydd gyda athrawon newydd. Dros y dair wythnos diwethaf rydym wedi edrych nôl a chofio am y pethau gwych i chi wneud tra yn yr ysgol, pethau i chi ddysgu oddi wrth athrawon arbennig yn union fel y ddau deithiwr ar y "Ffordd i Emaus". Ond rwan mae'n amser i chi feddwl fel y ddau deithiwr at y dyfodol. Mi fyddwch yn mynd â phopeth i chi ddysgu a mwynhau gyda chi. Wrth i ni droi ein meddyliau a'n gweddiau at y dyfodol gallwch ofyn y cwestiynau yma:



1) Pa bethau sy'n fy mhoeni am y dyfodol? Trafodwch gyda oedolyn, gall hyn fod o fudd mawr.
2) Pa bethau sy'n fy nghyffroi am y dyfodol? Efallai hoffwch ddewud y weddi o'r wythnos gyntaf gan ychwanegu eich gweddiau personol iddo.
3) Os gallwni ddiolch i fy athrawon, beth fyddwni yn ei ddewud?

**Syniad gweithgaredd**

Efallai eich bod wedi creu bocs atgofion ers yr wythnos ddiwethaf? Beth am ychwanegu llythyr iddo, llythyr atoch chi neu at Dduw, neu'r ddau?
Gallwch ychwanegu ato yr holl bethau a meddyliau o'r gweithgareddau Cofio'r Enfys.
Eich hoff atgofion o'r ysgol, y pethau rydych wedi ei ddysgu, eich hoff athrawon, efallai eich pryderon neu beth sydd yn eich cyffroi am y dyfodol.
Ychwanegwch y cwbl i'r bocs a'i agor ar ddiwedd y flwyddyn ysgol nesaf. Pwy â wŷr pa hwyl a phrofiadau cyffrous fyddwch wedi ei gael?
Ond cofiwch hyn
Mae Duw gyda chi, mae yn eich caru- beth bynnag ddaw yn y dyfodol.



Follow us on twitter @churchinwales

@diostasaphedu @pobldewi @esgobaethbangor @llandaffed @swanbreced @apmdaly